

















Noa a'r Dilyw Mawr

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 6-10

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Awdur Edward Hughes
Lluniau gan Byron Unger; Lazarus

Cyfieithydd Catrin Roberts
addaswyd gan M. Maillot; Tammy S.

Stori 3 o 60

**M1914.org**

**Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg MB  R3C 2G1  Canada**

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

**Mae Duw yn gwybod** bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

**Mae Duw yn ein caru ni** gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

**Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau,** beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

**Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!**

Welsh







Rhybuddiodd Duw Noa fod llifogydd mawr yn mynd i foddi’r ddaear i gyd. “Dw i am i ti adeiladu arch (cwch mawr) wedi ei gwneud o goed, yn ddigon mawr i dy deulu a llawer o anifeiliaid,” meddai wrth Noa.
3
Rhoddodd gyfarwyddiadau manwl i Noa. Dechreuodd Noa ar y gwaith!
4
Mae’n siwr fod pobl wedi gwneud hwyl am ben Noa pan oedd yn egluro pam ei fod yn gwneud arch.
Daliodd Noa ati i adeiladu. Daliodd ati hefyd i ddweud wrth bobl am Dduw. Doedd neb am wrando.
5
Roedd gan Noa ffydd. Er fod e erioed wedi gweld glaw o’r blaen, roedd yn credu geiriau Duw. Cyn hir roedd yr arch yn barod i’w llwytho â chyflenwadau.
6
Yna daeth yr anifeiliaid - saith pâr o rai mathau, dau o fathau eraill. Daeth adar mawr a man, creaduriaid pitw bach a rhai tal at yr arch.
7
Efallai fod pobl wedi gwneud sbort ar ben Noa wrth iddo lwytho’r anifeiliaid.
8
Wnaethon nhw ddim stopio gwneud pethau drwg. Wnaethon nhw ddim gofyn am gael mynd ar yr arch.
9
O’r diwedd, roedd yr holl anifeiliaid a’r adar yn yr arch.
10
“Dewch i mewn i’r arch,” meddai Duw wrth Noa, “ti a’r teulu.” Aeth Noa, ei wraig, ei dri mab a’u gwragedd i mewn i’r arch. Yna caeodd Duw y drws!
11
Yna daeth y glaw. Dyma hi’n arllwys y glaw am bedwar deg diwrnod a nos.
12
Llifodd y dŵr i’r trefi a’r pentrefi. Ar ôl i’r glaw stopio, roedd hyd yn oed y mynyddoedd o dan ddŵr. Roedd popeth oedd angen anadlu aer wedi marw.
13
Wrth i’r dŵr godi, fe wnaeth yr arch arnofio. Efallai bod hi’n dywyll y tu mewn i’r arch, ac yn arw, ac yn frawychus. Ond fe wnaeth yr arch gadw Noa yn ddiogel.
14
Ar ôl pum mis o lifogydd, anfonodd Duw wynt i sychu’r ddaear. Fesul tipyn daeth yr arch i orffwys ar ben mynydd Ararat.
15
Arhosodd Noa y tu mewn i’r arch am bedwar deg diwrnod arall wrth i’r dŵr fynd i lawr.
16
Anfonodd Noa gigfran a cholomen allan o’r arch. Daeth y golomen yn ôl at Noa achos bod hi’n methu dod o hyd i ddarn sych o dir i lanio arno.
17
Wythnos yn ddiweddarach, rhoddodd Noa gynnig arall arni. Daeth y golomen yn ôl gyda deilen ifanc coeden olewydd yn ei phig.
18